**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** **STD 01-02(05)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 20 Mawrth 2002**
**Amser:** **9:30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Braint**

Mae Aelod wedi mynegi pryder i'r Llywydd ynghylch y defnydd a wneir o'r Fraint a roddir i Aelodau'r Cynulliad o dan Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywydd wedi penderfynu gofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater, fel mater o egwyddor sy'n berthnasol i ymddygiad Aelodau'n gyffredinol, o dan Reol Sefydlog 16.1 (iii).

Yn benodol, y mae wedi gofyn am gyngor y Pwyllgor ynghylch a ydyw Rheolau Sefydlog a chanllawiau cyfredol y Cynulliad yn y maes hwn yn ddigon cadarn, a oes angen unrhyw newidiadau, ac os felly, pa newidiadau. Er bod y mater wedi'i godi gydag ef mewn perthynas ag ymddygiad Aelodau mewn Cyfarfod Llawn, byddai o gymorth i'r Llywydd petai'r Pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw oblygiadau i ymddygiad mewn Pwyllgorau a thrafodion y Cynulliad yn fwy cyffredinol (er enghraifft, mewn cwestiynau, datganiadau o farn ac ati). Y mae hefyd wedi gofyn a fedrai'r Pwyllgor, wrth ystyried materion sy'n gysylltiedig â busnes y Pwyllgorau, ymgynghori â Phanel y Cadeiryddion am eu barn hwythau.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y mater a chynghori a ydyw'r Rheolau Sefydlog cyfredol yn ddigon cadarn.

***Yr Ysgrifenyddiaeth***